# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 14eg o Ragfyr 2020 am 7:20pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Bethan Lawton

**CYFARFOD BLYNYDDOL**

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Alan H. Jones

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2020/2021:

Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolchiadau i weddill y Cynghorwyr am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, ac i'r Cynghorydd Sir sydd yn weithgar iawn yn lleol. Nodwyd hefyd gair o ddiolch un o'r Cynghorwyr a bu benderfynu ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn. Dywedodd y Cadeirydd bod safon a'r adborth sydd yn cael ei dderbyn am Ddolgoch yn ganmoliaeth i'r cyngor.

Cafwyd trafodaeth am newid y Cadeirydd, ond penderfynwyd y dylid cadw'r seddi yr un fath heb newid tan y cyfarfod blynyddol ym mis Mai 2021.

**PENDERFYNIAD:** Etholwyd y Cynghorydd Richard Evans yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2020/2021.

4. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd:

**PENDERFYNIAD:** I'w dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

5. Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2020/2021:

**PENDERFYNIAD:** Etholwyd y Cynghorydd Bethan Lawton yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2020/2021.

6. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Is-Gadeirydd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

7. Enwebu a phenodi Cynghorwyr y gyrff allanol:

**PENDERFYNIAD:** I enwebu'r canlynol:
Ysbyty Tywyn a'r Cylch - y Cynghorydd Bethan Lawton
Un Llais Cymru - y Cynghorydd Arwel Pierce
Ysgol Gynradd Craig y Deryn - y Cynghorydd Bethan Lawton

8. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog:

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu'r rheolau sefydlog.

9. Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol.

10. Mabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr:

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.

11. Derbyn Cofrestr Buddiannau Aelodau:

Adroddodd y Clerc bod y gofrestr buddiannau ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNIAD:** Cynghorwyr i adolygu'r buddiannau sydd ar y gofrestr gan adrodd unrhyw newid i'r Clerc ar y ffurflen gofrestr.

12. Adolygu'r Gofrestr Asesiad Risg y Cyngor:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y gofrestr asesiad risg.

13. Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer 2020/2021:

**PENDERFYNIAD:** I benodi Cyngor Gwynedd yn archwilydd mewnol y Cyngor.

**CYFARFOD ARFEROL**

14. Derbyn cofnodion 19 Hydref 2020:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

15. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101719 | £376.84 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101720 | £94.20 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

16. Elan City - Arwydd mesur cyflymder modurwyr:

Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cynghorydd Bethan Lawton am y cynllun sydd yn defnyddio gwirfoddolwyr er mwyn mesur cyflymder modurwyr.

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at Gyngor Gwynedd yn egluro bod Cyngor Cymuned Bryncrug yn ystyried gosod arwydd, gan ofyn beth yw'r camau y dylai'r cyngor ei ddilyn, gan hefyd ofyn a fyddai Cyngor Gwynedd yn fodlon ystyried ariannu cost hanner yr arwyddion oherwydd bod pryder yn y pentref am y broblem o yrwyr yn gor-yrru.

17. Heddlu Gogledd Cymru - Diogelwch ffyrdd:

Yr oedd e-bost wedi ei dderbyn gan swyddog o'r Heddlu yn cyfeirio'r cyngor at Gyngor Gwynedd.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn am gyfarfod safle.

18. Morris & Bates Cyfreithwyr - Elusen Dolgoch:

Adroddwyd nad oedd dim i'w adrodd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

19. Cyngor Gwynedd - Economi a Chymuned - Grant tuag at cynyddu cyfleodd chwarae:

**PENDERFYNIAD:** I geisio cael sleid i'r cae chwarae drwy'r grant.

20. Eco Ddyfi - Biosffer Dyfi - Prosiect tyfu cymunedol:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

21. Grŵp Cynefin - Adroddiad: Arolwg o Anghenion Tai Lleol ardal Bryncrug:

Adroddodd y Cynghorydd Bethan Lawton bod Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu polisi tai newydd, gyda'r cyngor yn bwriadu prynu tai cyngor yn ôl.

**PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu at yr Hwylusydd Tai Gwledig gan fynegi'r isod:
-I ofyn am wybodaeth er mwyn ei roi ar hysbysfwrdd y pentref

-I ofyn am gyfarfod cyhoeddus yn y pentref pan y fydd rheolau covid-19 yn caniatáu
-I ofyn am arolwg o'r sefyllfa yn y pentref
-I egluro mai barn y cyngor ydy bod angen am dai fforddiadwy yn y pentref, gan bod nifer o dai wedi eu gwerthu yn sgil yr argyfwng coronafirws, gydag yr un tŷ ar werth oherwydd i dai cael eu trosi yn dai haf

22. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus - Cynllun Llesiant a Chorfforaethol - Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2021-26:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

23. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cronfa Prosiectau Cymuned yr Awdurdod:

Adroddwyd bod y swyddog sydd yn delio gyda'r ceisiadau ariannol o'r gronfa wedi egluro y byddai modd i'r cyngor gyflwyno cais tuag at brynu offer i'r cae chwarae.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth, gyda'r cyngor i gyflwyno cais.

24. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Eglwys Sant Fathew:

Adroddwyd e-bost wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod yn dweud y byddai swyddogion yn edrych mewn i'r mater dan sylw.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth, gyda'r Clerc i anfon llythyr ymhen mis er mwyn gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa.

25. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Tir ger Y Ganolfan:

Adroddwyd e-bost wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod yn gofyn am wybodaeth am sied sydd wedi ei godi ger y Ganolfan.

**PENDERFYNIAD:** I ymateb i'r Awdurdod gan egluro bod y Cyngor yn ymwybodol bod siec wedi ei godi yn y cae, ond nid oes gan y Cyngor unrhyw wybodaeth pellach e.e. y defnydd a wneir o'r sied. I ofyn i'r Awdurdod os oes caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer y sied ac os yw'r sied o fewn y ffin datblygu.

26. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nid oedd dim i'w adrodd

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

27. Cae Chwarae - gosod les i Glwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I roi ar agenda y mis canlynol, sef i osod cytundeb llogi ar gyfer y cael pêl-droed a'r Pafiliwn.

28. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at Gyngor Gwynedd er mwyn ymholi am yr arian o'r clwb ieuenctid oedd yn cael ei drosglwyddo drosodd i Gyngor Cymuned Bryncrug pe byddai'r cyngor yn penderfynu ei redeg.

29. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-yr oedd cwynion wedi ei dderbyn am y Peniarth gan aelodau o'r cyhoedd
-Cyngor Gwynedd yn gweithio ar strategaeth tai
-Cyngor Gwynedd yn ystyried codi y premiwm ar ail-gartrefi a thai gwag o 150% i 200%
-Bod pwysau cynyddol ar Gyngor Gwynedd i weinyddu grantiau Covid-19 Llywodraeth Cymru, gyda staff o wahanol adrannau ar secondiad er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

30. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nid oedd unrhyw fater brys i'w drafod.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:20pm

Llofnod y Cadeirydd ............................................................